

YSGOLION YR 21AIN GANRIF



YMGYNGHORI AR GYNNIG I UNO YSGOL GYNRADD CEFN AC YSGOL
GYNRADD CRAIG-YR-HESG ER MWYN SEFYDLU YSGOL GYNRADD
GYMUNEDOL NEWYDD AR SAFLE NEWYDD

ADRODDIAD YMGYNGHORI

Cynnig: uno Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg. Caiff hyn ei gyflawni drwy gau'r ddwy ysgol bresennol ac agor ysgol gynradd gymunedol newydd a mwy o faint yn eu lle.

1. Nod yr Adroddiad Ymgynghori

Caiff yr adroddiad yma ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, sef dogfen statudol 011/2018. Ei nod yw llywio canlyniad yr ymgynghoriad a gafodd ei gynnal yn ystod y cyfnod rhwng 10 Ionawr 2022 a 21 Chwefror 2022 gyda'r holl randdeiliaid a'r partïon â buddiant sydd wedi'u rhestru isod.

2. Â phwy ymgynghoron ni?

Cafodd copi o'n dogfen ymgynghori, a oedd yn rhoi'r holl wybodaeth am ein cynnig, ei anfon i'r rhanddeiliaid canlynol. Cafodd y ddogfen ei chyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.

| | |
|---|---|
| <ul style="list-style-type: none"> • Cyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg. • Rhieni/gwarcheidwaid, darpar rieni/gwarcheidwaid lle bo modd, ac aelodau o staff Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg. • Disgyblion Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg. • Cyrff Llywodraethu'r ysgolion cynradd cyfagos. • Awdurdodau Lleol cyfagos. • Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig • Gweinidogion Cymru • Aelodau'r Senedd ar gyfer etholaethau Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái ac Aelodau rhanbarthol o'r Senedd ar gyfer yr ardal | <ul style="list-style-type: none"> • Aelodau Seneddol ar gyfer etholaethau Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái. • Estyn. • Undebau llafur athrawon a staff. • Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De. • Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau ar gyfer yr ardal. • Darparwyr Gofal Plant. • Mudiad Meithrin. • Menter Iaith. • Partneriaeth Datblygu Addysg y Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant. • Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc. • Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. • Comisiynydd y Gymraeg. |
|---|---|

Y Cynnig

Y cynnig yw uno Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg. Caiff hyn ei gyflawni drwy gau'r ddwy ysgol bresennol ac agor ysgol gynradd gymunedol newydd yn eu lle. Bydd yr ysgol gynradd newydd yn cael ei hadeiladu ar safle presennol Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg a'r tir gerllaw (safle hen Uned Atgyfeirio Disgyblion Tŷ Gwyn).

Bydd yr ysgol newydd yn darparu ar gyfer plant rhwng 3 ac 11 oed sydd eisiau addysg gynradd cyfrwng Saesneg. Ei nifer derbyn arfaethedig fydd 51 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn, gyda chyfanswm o 360 o leoedd i ddisgyblion (a'r meithrin).

Mae'r rhesymau dros ystyried y cynnig penodol yma wedi'u hamlinellu'n llawn yn y ddogfen ymgynghori a'r Aseidiadau o Effaith a gafodd eu dosbarthu i'r holl randdeiliaid. Mae'r ddolen i'r dogfennau yma isod:

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/CurrentConsultations/ProposaltoamalgamateCefnPrimaryandCraigyrHesgPrimarySchools.aspx>

3. Y Broses Ymgynghori

Cafodd dolen at gopiâu electronig o'r ddogfen ymgynghori ei hanfon at yr holl randdeiliaid sydd wedi'u nodi yn Adran 2 drosodd. Daeth copiâu papur i law pob un a wnaeth gais am un. Cafodd y cyfarfodydd canlynol eu cynnal:

| Ysgolion fydd yn cael eu heffeithio | Cyfadrannau | Amser/Dyddiad | Lleoliad |
|---|---|-------------------------------|------------------------|
| Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg | Corff Llywodraethu a Staff y ddwy ysgol | 4.30pm, Dydd Mawrth 18 Ionawr | Microsoft Teams |
| Ysgol Gynradd Cefn | Cyngor yr Ysgol | 11am, Dydd Mercher 19 Ionawr | Microsoft Teams / Zoom |
| Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg | Cyngor yr Ysgol | 10am, Dydd Mercher 19 Ionawr | Microsoft Teams / Zoom |

Cafodd y cyfarfodydd eu cynnal ar-lein yn sgil cyfyngiadau Covid-19. Cafodd cofnodion y cyfarfodydd yma eu cymryd ac maen nhw wedi'u hatodi yn Atodiad 2. Maen nhw'n cofnodi'r cwestiynau a godwyd, y sylwadau a'r datganiadau a wnaed yn ystod y cyfarfodydd. Cafodd yr ymatebion eu darparu lle'r oedd hynny'n briodol. Roedd y staff a'r Cyrff Llywodraethu wedi darparu cwestiynau cyn y cyfarfod. Mae'r rhain a'r ymatebion perthnasol hefyd wedi'u cofnodi.

Er mwyn sicrhau bod disgyblion y ddwy ysgol yn deall yr wybodaeth yn y cynnig, crëwyd fersiwn o'r ddogfen ymgynghori yn arbennig i bobl ifainc a'i darparu i'r ysgol i'w dosbarthu i bob disgybl. Yn ogystal â hyn, i gefnogi ac annog disgyblion i ymgysylltu ymhellach, crëwyd a chwaraewyd fideo o'r ddogfen ymgynghori i bobl ifainc yn ystod y cyfarfod ymgynghori. Yn dilyn hynny, anfonwyd y fideo i'r ysgol i'w alluogi i gael ei rannu gyda gweddill y disgyblion.

Cliciwch yma i weld y fideo:

Cymraeg - <https://youtu.be/MstBhEWS6TU>

Saesneg - <https://youtu.be/DefGDj5jEd>

4. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae'r ymatebion i'r materion a gafodd eu codi yn y cyfarfodydd ymgynghori sydd wedi'u crybwyll uchod wedi'u crynhoi yn nodiadau'r cyfarfodydd sydd wedi'u hatodi yn Atodiad 2. Yn ogystal â hyn, cafwyd 34 o ymatebion ysgrifenedig yn ystod y cyfnod ymgynghori, 32 drwy'r arolwg ar-lein a oedd ar gael yn ystod y cyfnod ymgynghori, ynghyd ag 2 ymateb drwy e-bost. O'r 34 ymateb ysgrifenedig, roedd 25 o blaid y cynigion, roedd 6 yn erbyn, ac roedd 3 yn ansicr.

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gyda'r Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl oherwydd efallai bod nodweddion penodol gyda nhw. Felly, yn rhan o geisio barn ar y cynnig mewn perthynas â threfniadaeth yr ysgolion, roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cwestiwn ynghylch cydymffurfio â

rhwymedigaethau statudol y Cyngor, gan ofyn 'Sut byddai cynnig y Cyngor yn effeithio arnoch chi? Dywedodd pawb a ymatebodd i'r cwestiwn yma y byddai effaith gadarnhaol neu ddim effaith arnyh nhw o ganlyniad i weithredu'r cynnig.

Yn ogystal â hyn, roedd arolwg yr ymgynghoriad, yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, hefyd yn cynnwys cwestiynau pellach i gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol y Cyngor a oedd yn gofyn a fyddai modd i'r cynnig effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg (Cadarnhaol neu Negyddol) ac a ydyn nhw mewn unrhyw ffordd, *yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? Cafodd y cwestiwn 'Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lleihau'r effeithiau negyddol' ei ofyn hefyd.* Dywedodd pawb a ymatebodd i'r cwestiynau yma y byddai effaith gadarnhaol neu ddim effaith ar y Gymraeg o ganlyniad i weithredu'r cynnig.

Yn unol â'r Cod, mae crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law yn y tabl isod. Ymatebwyd i unrhyw broblemau sy'n codi o'r ymatebion yma drwy egluro'r rhesymau i gefnogi'r cynnig, ble y bo hynny'n addas.

Crynodeb o'r ymatebion a'r materion a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn 'Ydych chi'n cytuno â'r cynnig?'

| Sylwadau/Materion | Eglurhad - os oes angen |
|---|--|
| Byddai uno'n well i'r plant a'r staff. Byddai'r plant yn cael y gorau o ddau fyd. Gallai'r ysgolion a'r staff fod yn gweithio o un safle yn unig. | |
| Bydd y penderfyniad i adeiladu'r ysgol newydd drws nesaf i ffordd brysur iawn yn cael effaith negyddol ar iechyd y plant. Byddai lleoliad Ysgol Gynradd Cefn yn rhoi'r cyfle i gynnal sesiynau'r rhaglen Ysgolion Coedwig, gan ddarparu gofod awyr agored mawr sy'n cyd-fynd yn llawer gwell â'r hyn rydyn ni wedi bodi yn ceisio mor galed i'w sefydlu dros y blynyddoedd. | Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle presennol Ysgol Craig-yr-Hesg a'r tir cyfagos iddo, felly mae ysgol yn y lleoliad yma eisoes. Gan gyfeirio at y ddogfen ymgynghori, mae nifer o gyfyngiadau ar Ysgol Gynradd Cefn o ran ei safle, gan gynnwys ei lleoliad a'i thopograffeg, sy'n ei hatal rhag rhoi lle i ysgol newydd fwy. Bydd y safle a ffeirir yn gartref i'r ysgol newydd, fwy a chwbl hygyrch a fydd yn cyflawni'r holl ofynion yn unol â Bwletin Adeiladu 99. |
| Mae'r cynnig yn gwneud synnwyr. Bydd yn dod â'r gymuned ynghyd. | |
| Mae'r ddwy ysgol yn hen a dydyn nhw ddim bellach yn addas i'r diben. Byddai rhai yn dweud mai Glyn-coch yw'r ardal mae RhCT wedi anghofio amdani - mor hyfryd yw cael ysgol newydd sbon i'n plant. | |
| Mae pobl yn parcio ym mhobman yno erbyn hyn wrth ollwng a chodi. Bydd hi'n hollol wallgof cael hyd yn oed rhagor o bobl yno! Mae'n ddigon peryglus nawr heb uno'r ysgolion. | Bydd manylion penodol rheoli trafndiaeth a thraffig y safle yn cael eu llunio yn amodol ar gymeradwyaeth ac wrth i'r cynnig fynd rhagddo. Bydd Asesiad o Effaith mewn perthynas â Thraffig yn cael ei gynnal yn rhan o'r broses ddylunio a rhaid i'r Awdurdod Prifffyrdd fod yn |

| | |
|---|--|
| | <p>fodlon ar y manylion a'r argymhellion a fydd yn cael eu cynnwys yn rhan o'r ddogfen yma. Caiff yr holl argymhellion sy'n cael eu cynnwys yn rhan o'r adroddiad eu hymgorffori yn nyluniad safle newydd yr ysgol.</p> |
| <p>Bydd NAWUST Cymru'n disgwyl i RhCT fel y cyflogwr, i sicrhau bod swyddi a chynhaliaeth athrawon presennol sy'n dymuno bod yn gyflogedig yn yr ysgol newydd yn eu diogelu a gwarchod o unrhyw niwed yn ystod y broses ailstrwythuro. Bydd NASUWT yn herio arferion 'Diswyddo ac Ailgyflogi' sy'n lleihau morâl a chynhyrchedd. Mae'r ddogfen ymgynghoriad yn nodi'r risgiau i staff mewn termau cyflogaeth (t.17) ond mae'n galonogol nodi bod 'na cyfeiriad i 'slotio mewn' ar dudalen 27. Mae NASUWT Cymru'n disgwyl i athrawon slotio mewn i rolau addas tu fewn i'r ysgol, ac ennyd y rhagolwg o gynnydd i'r nifer o ddisgyblion ac ymrwymiad i ddysgu disgyblion mewn grwpiau oedran, dylai hyn cymryd blaenoriaeth. Cytunwn gyda'r awgrym bydd cyfleodd ardderchog ar gyfer rhyngweithiad staff, cyd-drefniant a rhannu arbenigedd. Mae gan athrawon presennol y sgiliau, ffyddlondeb ac ymrwymiad i wella safonau a chreu ethos ysgol yr 21ain ganrif.</p> | |
| <p>Rwy'n gwybod bod rhaid i hyn ddigwydd ond bydd plant rhan uchaf Glyn-coch Ysgol Gynradd Cefn yn wlyb at eu croen yn y tywydd gwlyb.</p> | <p>Mae hyn yn wir am y mwyafrif o ddisgyblion sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol. Caiff cerdded i'r ysgol ei annog gan fod hyn yn cyfrannu at gyflawni'r Ddeddf Teithio Llesol a'r agenda iechyd a lles. Serch hynny, rydyn ni'n cydnabod y bydd angen dillad tywydd gwlyb priodol yn ystod misoedd y gaeaf.</p> |
| <p>Dros y degawd diwethaf, mae grwpiau cymunedol ynghyd ag arweinwyr ysgolion a staff i gyd wedi bod yn chwarae eu rhan wrth adfywio pentref sydd wedi'i bardduo'n fawr. Maen nhw wedi ceisio dod â'r pentref ynghyd - nid y 'top' na'r 'gwaelod' - ond Glyn-coch, ac wedi ceisio meithrin angerdd yn y genhedlaeth nesaf dros ddysgu a chyflawniad, i wneud i'r plant gredu ynddyn nhw eu hunain a bod yn falch o ble maen nhw'n dod.</p> | |
| <p>Nid yw cynlluniau'r adeilad yn ystyried anghenion y disgyblion. Mae'r "Calon" yn gysyniad dylunio aruthrol ar bapur, wir yn bert, ond fel nifer o hediadau pensaernïol ffansi mae sail man yn ymarferoldeb. Bydd adrannau ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol, ond sawl disgybl yn yr ysgol, er bod nhw'n disgyn yn brin o'r meini prawf ar gyfer ADY, mae ganddyn nhw anghenion cymhleth ac weithiau anniffiniol sy'n ymfyn am ystafelloedd "terfyn amser" sy'n ddymunol i'r synhwyraidd ac yn dawel. Mae rhaid i'r staff yr ysgol cael y cyfraniad mwyaf i'r cynlluniau</p> | <p>Mi fydd manylyn penodol dyluniad yr ysgol newydd yn cael ei datblygu'n testun i gymeradwyaeth a'r cynnig yn gynnydd. Bwletin Adeiladu 99 yw'r safon diwydiant y'n cael ei defnyddio gan y Llywodraeth Cymru ac yw'r canllaw ar gyfer penderfynu adrannau, bylchau a gweithredai gofynnol wrth ddylunio ysgol.</p> <p>Mae'r broses dylunio'n cael ei ymgymryd gan gydweithio gyda'r ysgol, y corff llywodraethol a chydweithwyr arbenigol sy'n</p> |

| | |
|--|---|
| dylunio'r adeilad. Bydd hyn yn ymfyn am daliadau'r bobl sy'n dysgu'r plant mewn gwirionedd. | gweithio mewn Mynediad a Chynhwysiant. |
| Rwy'n croesawu'r cynnig i adeiladu ysgol newydd sbon ar gyfer Glyn-coch gan ddefnyddio cyllid Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru. | |
| Hoffwn weld Dechrau'n Deg ymuno a'r ysgol, bydd yn darparu dilyniant naturiol i addysg gynradd. | Bydd Dechrau'n Deg yn aros yn ei lleoliad cyfredol, er hynny mae cyswllt gyda'r ysgol yn allweddol a gellir gyredig ymhellach gyda'r prifathro a rheolaeth Dechrau'n Deg mewn perthynas â'r ysgol newydd. |

Barn Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) ynglŷn â Manteision Cyffredinol y Cynnig.

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 - Safonau a Threfniadaeth Ysgolion, mae ymateb Estyn i'r ymgynghoriad wedi'i ddarparu'n llawn yn Atodiad 3. Does dim gofyn bod Estyn yn gweithredu yn unol â'r Cod, a dydy'r Ddeddf ddim yn gosod unrhyw ofynion ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, ac yntau'n gorff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi ei farn ar fanteision cyffredinol y cynnig o ran trefniadaeth yr ysgol yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi ymateb i'r wybodaeth sydd wedi'i darparu gan y cynigydd, yn ogystal â gwybodaeth ychwanegol megis data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar gyfer yr ysgolion sy'n ymwneud â'r cynnig. **Mae Estyn o'r farn y bydd y cynnig yn cynnal neu'n gwella safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal trwy ddarparu gwell cyfleusterau ar gyfer addysgu a dysgu a helpu arweinwyr y ddwy ysgol bresennol i weithredu'n fwy effeithiol ac effeithlon.**

Yn unol â'r Cod, mae'r rhannau o'r ymateb sy'n gofyn am eglurdeb pellach wedi'u nodi yn y tabl isod.

| Adroddiad Estyn (cyfieithiad) | Eglurhad |
|--|---|
| Mae'r Awdurdod Lleol wedi darparu disgrifiad manwl o'r cynnig, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer gweithdrefnau statudol ac ar gyfer gweithredu'r cynnig. Sech hynny, dydy'r cynnig ddim yn ddigon clir mewn perthynas â ble'n union y caiff yr ysgol newydd ei hadeiladu. | Yn y ddogfen ymgynghori, caiff ei nodi ' <i>Bydd yr ysgol gynradd newydd yn cael ei hadeiladu ar safle presennol Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg a'r tir gerllaw (safle hen Uned Atgyfeirio Disgyblion Tŷ Gwyn)</i> '. I egluro ymhellach, caiff ei gynnig y bydd adeilad yr ysgol newydd, y manau allanol a'r maes parcio yn cwmpasu safle presennol yr ysgol a'r tir gwag drws nesaf. |

Mae'r cynnig yn nodi'r manteision a'r anfantaision disgwylidig mewn ffordd glir a theg o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Serch hynny, yr unig risg a gaiff ei nodi yw y gall rhieni ddewis anfon eu plant i ysgol arall. Mae'n ymddangos bod risgiau eraill sydd ddim yn cael eu hystyried yn adran rheoli risg y cynnig. Er enghraifft, mae'r cynnydd mewn traffig ar safle'r ysgol newydd yn un risg o'r fath ac mae'r sawl sy'n cynnig yn nodi bod 'man gollwng' i helpu i leihau'r risg yma 'dan ystyriaeth' yn unig a bod angen 'arolygon ac asesiadau trafnidiaeth a thraffig pellach.' Os na fydd y man gollwng yn cael ei gynnwys yn rhan o'r cynlluniau terfynol, mae'n debygol y bydd effaith negyddol ar draffig o amgylch safle'r ysgol newydd ar adegau penodol o'r dydd.

Bydd manylion penodol rheoli trafnidiaeth a thraffig y safle yn cael eu llunio yn amodol ar gymeradwyaeth ac wrth i'r cynnig fynd rhagddo.

Bydd y cynnig yn destun craffu parhaus. Dim ond os ceir cymeradwyaeth yr holl ymgynghoreion statudol, gan gynnwys yr Awdurdod Cynllunio, y bydd modd symud ymlaen. Bydd Asesiad o Effaith mewn perthynas â Thraffig yn cael ei gynnal yn rhan o'r broses yma. Rhaid i'r Awdurdod Priffyrdd fod yn fodlon gyda'r manylion a'r argymhellion sydd yn y ddogfen yma.

Gallai'r effaith bosibl ar Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg yn ystod y cyfnod adeiladu fod yn risg ychwanegol. Dydy hyn ddim yn cael ei drafod yn rhan o'r cynnig.

Os yw'r ysgol wedi'i lleoli ger Craig-yr-Hesg fe allai hynny darfu'n sylweddol ar yr ysgol yn gweithredu. Dydy'r cynnig ddim yn rhoi digon o ystyriaeth i'r tarfu posibl ar Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg yn ystod y cyfnod adeiladu a sut y bydd hyn yn cael ei leihau.

Dydy manylion penodol y cynllun rheoli adeiladu ddim wedi'u datblygu eto. Serch hynny, caiff ei ragweld y bydd adeilad yr ysgol newydd yn cael ei adeiladu ar y safle gwag. Mae hyn yn golygu y bydd y tarfu ar Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg yn fach iawn yn ystod y cyfnod adeiladu.

Bydd y gwaith adeiladu yn cael ei gyflwyno fesul cam. Mae hyn yn golygu bydd adeilad yr ysgol newydd yn cael ei adeiladu yn gyntaf, yna bydd disgyblion a staff yn cael ei ddefnyddio tra bod adeilad presennol yr ysgol yn cael ei ddymchwel. Bydd hyn yn caniatáu i'r ardaloedd allanol gael eu datblygu. Mae RhCT wedi gweithredu'r fethodoleg adeiladu fesul cam yma yn llwyddiannus ar nifer o adeiladau ysgol newydd.

Dydy'r cynnig ddim yn egluro'r rhesymau dros gynnwys lleoedd dros ben o'r fath yn rhan o'r ysgol newydd.

Ar hyn o bryd, mae nifer o ddisgyblion yng Nglyn-coch sy'n mynd i ysgolion y tu allan i'r dalgylch. Rydyn ni wedi dysgu o'r profiad o gyflenwi ysgolion newydd wedi bod y datblygiadau yma'n

| | |
|--|---|
| | <p>atynfa, gan annog nifer o blant i ddychwelyd i ddalgylch eu hysgol.</p> <p>Hefyd, mae lle ychwanegol yn yr ysgol yn rhoi'r hyblygrwydd i'r gymuned ddefnyddio'r adeilad, gan alluogi'r ysgol i integreiddio'n llawn i'r yr ardal leol.</p> <p>Mae dau Ddosbarth Cynnal/Cymorth Dysgu yn yr ysgol, a bydd unrhyw leoedd dros ben yn gwella'r hyblygrwydd yma, y lle a'r adnoddau sydd ar gael er mwyn diwallu anghenion disgyblion ag ADY yn y lleoliad prif ffrwd yma.</p> |
|--|---|

5. Asesiad o'r Ymgynghoriad

O ystyried yr ymatebion a'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori, mae asesiad arall o'r cynnig - sydd wedi'i gynnwys yn rhan o'r ddogfen ymgynghori - wedi ei gynnal. Rydyn ni wedi ailedrych ar y cynnig ac mae'r materion canlynol wedi'u hailasesu:

- Effaith debygol y cynnig ar ansawdd a safon yr addysg;
- Yr effaith debygol ar y gymuned; ac
- Effaith debygol ar newid trefniadau teithio.

Ar ôl ystyried ymhellach, mae'r cynnig yn dal i fod yr un mwyaf priodol ac o'r herwydd does dim newidiadau wedi'u gwneud i'r cynnig.

6. Casgliad

Does dim o'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi ger bron pawb yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi golygu bod angen newid y ddogfen ymgynghori, ac felly mae'r wybodaeth yn parhau i fod yr un peth. Oherwydd hynny, caiff ei ystyried y dylid rhoi'r cynnig yma ar waith, heb unrhyw newidiadau iddo fe.

Argymhelliad yr adroddiad yma yw y dylai hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi yn unol â'r ymgynghoriad heb newidiadau, er mwyn mynd â'r cynnig yma yn ei flaen.

Atodiad 2

Ymgynghoriad i uno Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg Cyfarfod gyda staff ac aelodau o Gyrrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg

Dydd Mawrth 18 Ionawr 2022 am 4.30pm

Dros Microsoft Teams

Yn bresennol:

| | | |
|--|----|---|
| Gaynor Davies | GD | Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant |
| Andrea Richards | AR | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21 ^{ain} Garrif a Materion Trawsnewid |
| Lisa Howell | LH | Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion - Ysgolion yr 21 ^{ain} Garrif |
| Non Morgan | NM | Arweinydd Carfan Gwasanaeth Trefniadaeth a Llywodraethu Ysgolion |
| Nicola Goodman | NG | Swyddog Arweiniol ar gyfer Cynllunio Strategol a'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) - Ysgolion yr 21 ^{ain} Garrif |
| Catherine Williams | CW | Swyddog Rhaglen Ysgolion yr 21 ^{ain} Garrif |
| Richard Bowen | RB | Swyddog Rhaglen Ysgolion yr 21 ^{ain} Garrif |
| Sarah Nicholls | SN | Swyddog Graddedig – Ysgolion yr 21 ^{ain} Garrif |
| Bethan Davies | BD | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Ellen Williams | EW | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Mrs Sarah Haggett | SH | Pennaeth Gweithredol - Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg |
| Mrs Emma Byers | EB | Pennaeth yr Ysgol - Ysgol Gynradd Cefn |
| Miss Carrie Thomas | CT | Pennaeth yr Ysgol - Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg |
| Staff ac Aelodau o'r Gyrrff Llywodraethu | | Staff ac Aelodau o Gyrrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg |

1. Croeso a Chyflwyniadau

Estynnodd GD groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cafodd pawb eu cyflwyno i'w gilydd.

2. Trosolwg o'r Ymgynghoriad

Rhoddodd GD drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

3. Cwestiynau gan Staff ac Aelodau o'r Gyrrff Llywodraethu

Cafodd wahoddiad ei estyn i staff ac aelodau o gyrrff llywodraethu'r ddwy ysgol i gyflwyno cwestiynau i SH cyn y cyfarfod. Cafodd y rhain eu rhannu wedyn gyda swyddogion y Cyngor fel bod modd paratoi ymatebion ar gyfer y cyfarfod. Darllenodd LH ac NG y cwestiynau cyn y cyfarfod ac ymatebodd Swyddogion RhCT yn eu tro. Cafodd wahoddiad ei estyn i'r rheiny a oedd yn bresennol hefyd i

ofyn cwestiynau ychwanegol drwy gydol y rhan yma o'r cyfarfod. Mae'r cwestiynau gan staff/aelodau o'r cyrff llywodraethu ac ymatebion swyddogion RhCT wedi'u crynhoi isod.

| Rhif | Pwnc / Cwestiwn | Ymateb RhCT |
|--------------------------|--|--|
| Strwythur staffio | | |
| 1 | Beth fydd strwythur Carfan yr Uwch Reolwyr yn yr ysgol newydd? h.y. beth fydd yn digwydd i rôl Pennaeth yr ysgol a'r Pennaeth Gweithredol? | Bydd y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu dros dro yn cynnig strwythur yr ysgol newydd. Unwaith y bydd y gyllideb wedi'i chadarnhau, bydd y strwythur drafft yn cael ei lunio ac yna'n cael ei rannu â'r Corff Llywodraethu/Cynrychiolwyr Undebau Llafur/ staff mewn cyfarfodydd ymgynghori. Cam cyntaf y broses fydd penodi'r Pennaeth. |
| 2 | Sut olwg fydd ar y strwythur staffio ar bob lefel? | Fel yr uchod. Bydd hyn yn cael ei benderfynu yn rhan o'r broses rheoli newid. Caiff ei benderfynu ar y pryd a fydd swyddi'n cael eu neilltuo ai peidio. Rhaid i bob swydd Prifathro a Dirprwy Bennaeth gael eu hysbysebu'n allanol yng Nghymru. |
| 3 | A fydd yr holl staff presennol yn cadw eu swyddi? A fyddwn ni'n cael ein symud rhwng grwpiau blwyddyn? (Ac ar draws cyfnodau) | Bydd y Pennaeth yn cynnig y strwythur a bydd y Corff Llywodraethu yn cytuno arno. Caiff proses rheoli newid ei chytuno arni. Bydd y strwythur yn cael ei rannu gyda'r Corff Llywodraethu/Cynrychiolwyr Undebau Llafur/staff mewn cyfarfodydd ymgynghori. |
| 4 | A fydd raid i staff ailymgeisio am eu swyddi? | Bydd disgwyl i staff wneud cais am swyddi yn rhan o'r strwythur newydd. Yn rhan o brosesau tebyg yn y gorffennol, mae hyn wedi'i neilltuo i staff mewnol yn y lle cyntaf. Y Corff Llywodraethu dros dro fydd yn penodi. |

| | | |
|------------------------------|---|---|
| | | |
| 5 | A fydd angen staff addysgu ychwanegol? | Bydd hyn yn dibynnu ar nifer y disgyblion yn yr ysgol newydd pan mae'n agor. |
| 6 | A fydd unrhyw gynigion/pecynnau ymddeoliad/diswyddo ar gael? | Bydd y garfan AD yn cynnal cyfarfodydd ymgynghori unigol gyda staff i ystyried eu sefyllfaoedd personol a'r opsiynau sydd ar gael iddyn nhw. |
| 7 | Ai ni fydd yn rheoli'r strwythur staffio? | Mae'r garfan AD yn cynghori y dylid dilyn proses rheoli newid er mwyn sicrhau dull teg a chyson. Serch hynny, penderfyniad y Corff Llywodraethu yw derbyn y cyngor yma a gweithredu arno ai peidio. |
| 8 | A fydd gyda'r ysgol newydd Gorff Llywodraethu newydd? | Bydd aelodau o'r Corff Llywodraethu presennol yn creu Corff Llywodraethu dros dro yn yr ysgol. Bydd angen i'r unigolion yma wneud cais i fod yn rhan ohono. Bydd yr Awdurdod Addysg Lleol wedyn yn penodi rhiant-lywodraethwyr. Bydd y Corff Llywodraethu dros dro yma wedyn yn ymgymryd â'r gwaith ar y strwythur staffio a gafodd ei grybwyll yn gynharach. |
| 9 | Pryd bydd y Corff Llywodraethu dros dro yn cael ei sefydlu, a phryd y bydd yn dod yn barhaol? | Bydd y Corff Llywodraethu parhaol newydd yn cael ei benodi pan fydd yr ysgol newydd yn agor. Bydd angen i Gyrff Llywodraethu'r ddwy ysgol a'r Corff Llywodraethu dros dro fodoli ar y cyd ar gyfer y llywodraethwyr hynny sy'n gwneud cais i fod yn rhan o'r Corff Llywodraethu dros dro. |
| Trefniadaeth Ysgolion | | |
| 10 | Beth fydd capasiti'r ysgol newydd? Ai un neu ddau ddsbarth fydd ym mhob blwyddyn? | Y capasiti fydd 360, ynghyd â 45 o leoedd meithrin a 2 Ddosbarth Cynnal Dysgu. Y nifer derbyn fydd 51. |
| 11 | A fydd raid i blant wneud cais am le yn yr ysgol newydd? | Na, bydd plant y ddwy ysgol yn pontio'n awtomatig. Does dim |

| | | |
|-----------|---|--|
| | | angen i'r disgyblion yma wneud cais. |
| 12 | A fydd gyda'r ysgol ddalgylch lle caiff disgyblion ardal Glyn-coch y dewis cyntaf? | Bydd y dalgylch yr un fath â'r dalgylchoedd presennol ar gyfer y ddwy ysgol. |
| 13 | Sut bydd enw, lliwiau a logo'r ysgol yn cael eu pennu? | Penderfyniadau i'r corff llywodraethu dros dro fydd y rhain. Byddai'n wych pe gallai disgyblion gyfrannu at y trafodaethau yma. Bydd angen cyflwyno'r enw i'r Cyngor i'w gymeradwyo. |
| 14 | Ai dim ond y ddwy ysgol yma fydd hi neu a fydd rhagor o ysgolion yn ymuno â ni? | Ie, dim ond y ddwy ysgol yma. |
| 15 | A fydd grwpiau blwyddyn cymysg neu un dosbarth fesul grŵp blwyddyn? | Y nifer derbyn yw 51 felly mae'n debygol o fod yn grwpiau blwyddyn cymysg ond bydd hyn yn dibynnu ar nifer y plant fesul grŵp blwyddyn yn yr ysgol. |
| 16 | A fydd lleoliad meithrin amser llawn fel sydd gyda ni nawr neu sesiwn bore yna sesiwn prynhawn? | Bydd yr ysgol yn penderfynu a fydd darpariaeth feithrin amser llawn neu ran amser yn cael ei sefydlu. |
| 17 | Pryd ydych chi'n rhagweld y bydd yr ysgol newydd yn agor? | Ddim hwyrach na mis Medi 2026 ond cyn hynny gobeithio. |
| 18 | A yw'r capasiti newydd o 360 ynghyd â 45 o leoedd meithrin yn ddigon mawr? | Yn seiliedig ar ymchwil gan y Garfan Data a Charfan Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif sy'n edrych ar ragamcanion niferoedd disgyblion, mae capasiti arfaethedig yr ysgol newydd yn addas i fodloni'r galw yn y dyfodol. |
| 19 | A yw'r capasiti arfaethedig yn addas ar gyfer y dyfodol? Gallai safle Ysgol Gynradd Cefn gael ei ddefnyddio i adeiladu tai arno ar ôl cau'r ysgol. Byddai hyn yn cael effaith ar yr ysgol newydd. | Mae'r ysgol newydd wedi'i chynllunio gan ystyried datblygiadau tai yn y dyfodol. O ystyried topograffeg llethrog safle Ysgol Gynradd Cefn, fyddai hyn ddim yn ddeniadol i ddatblygwyr ar gyfer datblygiad ar raddfa fawr. I roi cyd-destun, am bob 100 o dai a gaiff eu codi, rydyn ni'n amcangyfrif y bydd angen lle yn yr ysgol ar 25 o ddisgyblion. |

| Trefniadau Pontio | | |
|--------------------------|--|---|
| 20 | Sut bydd plant yn cael eu lleoli wrth i'r datblygiad fynd rhagddo? | Y gobaith yw y bydd plant yn aros yn eu hadeiladau ysgol presennol a phontio i'r adeilad newydd unwaith y bydd wedi'i gwblhau. |
| 21 | Sut byddwch chi'n sicrhau eich bod yn tarfu cyn lleied â phosibl pan fydd yr ysgolion yn symud i mewn i'r adeilad newydd? | Rydyn ni'n ceisio amserlennu dyddiadau pontio i gyd-fynd â chyfnodau gwyliau'r ysgol. Caiff sgiapiau a deunyddiau pacio eu darparu ychydig ymlaen llaw i helpu i bontio'n gynnar. Contractwr symud fydd yn gwneud y gwaith symud dodrefn, offer, ac ati. |
| 22 | A fydd arian ar gael ar gyfer adnoddau i'r ysgol? A fyddwn ni'n dechrau o'r dechrau neu'n dod ag offer ac adnoddau sydd gyda ni eisoes? | Caiff dodrefn ac offer TGCh newydd eu darparu gan ddefnyddio fformiwlâu ariannu Llywodraeth Cymru ac atodlen dodrefn safonol RhCT. Dylid pacio deunyddiau ac adnoddau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm a mynd â nhw gyda chi. |
| 23 | Faint o amser fydd yr ysgolion yn ei gael i symud i mewn i'r adeilad? A gaiff diwrnodau hyfforddiant mewn swydd (HMS) eu darparu? | I'w gytuno rhwng yr ysgolion a'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiad ar y pryd. Mae uchafswm o 2 ddiwrnod HMS wedi'i ddarparu yn flaenorol er mwyn osgoi cael effaith andwyol ar y ddarpariaeth addysg i ddisgyblion. |
| 24 | Mae'r dyddiad agor arfaethedig, sef mis Medi 2026 yn awgrymu y byddai gwyliau'r haf yn cael eu defnyddio er mwyn trosglwyddo adnoddau i'r safle newydd. Hyd yn oed gyda dodrefn newydd, bydd yr adeilad newydd yn teimlo ychydig yn ddi-fywyd. A fydd cyfle i wneud yr ystafelloedd dosbarth yn gartrefol i'r plant? | Mae'r lliwiau a gaiff eu defnyddio yn Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif newydd yn drawiadol a dydyn nhw ddim yn teimlo'n ddi-fywyd. Bydd yr amser a gaiff ei ganiatau ar gyfer symud i'r safle newydd yn dibynnu ar y cynnydd o ran adeiladu'r ysgol newydd. Roedd awgrym y byddai modd i staff ymweld ag Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif sydd wedi'u cwblhau'n ddiweddar. Bydd lluniau hefyd yn cael eu rhannu gyda'r Pennaeth i'w dosbarthu'n ehangach wedi hynny. Bydd angen gwneud gwaith dros wyliau'r haf i sicrhau bod yr ysgol yn barod i dderbyn plant. |

| Dyluniad yr Ysgol Newydd | | |
|---------------------------------|--|--|
| 25 | A fydd digon o fannau awyr agored sy'n darparu ardaloedd coedwig ynghyd ag offer newydd o'r radd flaenaf? | Gan fod hen safle cyfagos Tŷ Gwyn yn cael ei ddefnyddio, bydd y tir ychwanegol sydd ar gael yn cynnig llawer o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau/mannau awyr agored a fydd yn cael eu datblygu gan bensaer tirwedd. |
| 26 | Sut byddwch chi'n darparu ar gyfer plant ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (SEBD) a'r rheiny sy'n rhan o Grwpiau Anogaeth? A fydd staff yn ymwneud â dylunio'r dosbarthiadau, ac ati? | Bydd dosbarthiadau SEBD a Grwpiau Anogaeth sydd yn Ysgol Gynradd Cefn ar hyn o bryd yn trosglwyddo i'r adeilad newydd a chaiff dyluniadau eu datblygu drwy ymgynghori â'r ysgol a Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant RhCT maes o law. |
| 27 | A fydd gyda phob dosbarth le storio penodol ar gyfer adnoddau? Weithiau mae yna ddiffyg lle storio ar gyfer adnoddau yn y Cyfnod Sylfaen. | Mae digon o le storio ym mhob dosbarth ym mhob un o Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif RhCT. Mae lle storio ychwanegol hefyd ar gael drwy'r gyllideb 'dodrefn rhydd' yn ôl yr angen. |
| 28 | Pwy fydd yn cael chwarae rhan ym mhroses ddylunio'r ysgol newydd? | Mae gydag Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif RhCT ddyluniad safonol. Serch hynny, bydd cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Pennaeth i drafod cynigion dylunio o ddechrau'r broses honno i sicrhau ei bod yn cynnwys gofynion yr ysgol. |
| 29 | A fydd yr ysgol newydd yn fwy diogel? Hynny yw, a fydd hi'n anoddach i bobl sydd heb groeso iddyn nhw fynd i mewn ac achosi difrod? | Un o'r amodau ariannu yw achrediad Diogelu drwy Ddylunio, sy'n gofyn am ffens 2.4 metr o uchder i ddiogelu perimedr cyfan safle'r ysgol. Byddai unrhyw fannau sydd ar gael at ddefnydd y gymuned yn hunangynhwysol er mwyn sicrhau diogelwch gweddill safle'r ysgol. |
| 30 | A fydd gyda'r ysgol newydd system teledu cylch cyfyng (CCTV) sy'n cael ei monitro 24 awr y dydd? | Bydd CCTV yn cael ei osod ar y safle ac mae swyddfa fonitro ganolog Tŷ Sardis ar waith 24 awr y dydd. Mae rhai ysgolion wedi dewis prynu i mewn i'r gwasanaeth yma. |

| | | |
|-----------|--|--|
| | | Mater i'r Corff Llywodraethu newydd fyddai caffael y gwasanaeth yma ar gyfer yr ysgol newydd. |
| 31 | Mewn perthynas â'r ysgol yma, sut byddwch chi'n mynd i'r afael â materion a gafodd eu nodi mewn ysgolion newydd blaenorol? | Mae gwersi wedi'u dysgu o gynlluniau blaenorol ac mae dyluniad safonol Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif wedi gwella dros nifer o flynyddoedd. Bydd yr ysgol newydd yma'n gweithredu'n garbon sero net sy'n rhoi pwyslais ar awyru naturiol. Cafodd lluniau o ysgolion newydd eu rhannu i ddangos sut mae dyluniadau wedi datblygu. |
| 32 | A fydd gyda phob ystafell ddosbarth ei lle storio ei hun? | Mae gyda phob un o Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif newydd RhCT waliau storio yn yr ystafell ddosbarth sy'n defnyddio dodrefn wedi'u gosod yn y fan a'r lle. Erbyn hyn, dydyn ni ddim yn darparu storfa ar wahân i bob ystafell ddosbarth. Serch hynny, bydd lle storio hefyd yn rhan o'r dodrefn rhydd ac o amgylch adeilad yr ysgol. |
| 33 | A fydd gyda phob dosbarth ddrws i'r awyr agored? | Yn ôl dyluniad safonol RhCT, mae gofyn am fynediad uniongyrchol i'r tu allan o bob ystafell ddosbarth ar y llawr gwaelod. Caiff hyn ei ddatblygu gyda'r Pennaeth wrth i'r broses ddylunio gychwyn. |
| 34 | A fydd ystafelloedd ymyriadau ar gyfer pob Cyfnod Allweddol yn y brif ffrwd? | Yn ôl dyluniad safonol RhCT, mae gofyn am ardal o'r enw 'Calon yr Ysgol' ar gyfer pob ysgol a all gael ei defnyddio'n fan hyblyg i gynnal ymyriadau. |
| 35 | O ran anghenion dysgu ychwanegol, dydy man agored ddim yn addas ar gyfer ymyriadau. Sut bydd yr adeilad newydd yn darparu ar gyfer plant sydd angen lle tawel? | Bydd angen amgylchedd tawelach ar rai plant mewn rhai achosion. Bydd cyfle i drafod y materion yma yn ystod datblygiad y dyluniad. Bydd darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu hefyd yn cynnig cymorth ychwanegol i blant sydd ei angen. Mae defnyddio dodrefn mewn ysgolion eraill yn golygu bod modd |

| | | |
|---------------------------------|---|---|
| | | cael manau tawel yng 'Nghalon yr Ysgol'. |
| 36 | A fydd y dyluniad yn debyg i'r un yn Ysgol Gynradd Tre-wiliam? | Na, mae dyluniadau wedi datblygu'n sylweddol ers adeiladu Ysgol Gynradd Tre-wiliam. Byddwn ni hefyd yn rhannu lluniau o'n hysgolion newydd yn dilyn y cyfarfod. |
| 37 | A fydd gyda ni ystafell TGCh? | Yn ôl dyluniad safonol RhCT, mae gofyn am 'Galon yr Ysgol' ar gyfer pob ysgol a fydd yn cynnwys darpariaeth TGCh hyblyg. Bydd yr adeilad cyfan hefyd yn cynnwys Wi-Fi, felly bydd pob dosbarth yn gallu defnyddio cymaint o offer TGCh ag sydd ei angen. Bydd darpariaeth debyg i C-Touch ym mhob ystafell ddosbarth hefyd. |
| 38 | Pa gyfleusterau chwaraeon fydd gyda ni? | Lle bynnag y bo modd, mae Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif RhCT yn cynnwys Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) a chae glaswellt. Bydd hefyd prif neuadd amlbwrpas ar gyfer bwya, cynnal gwasanaethau a gwersi Addysg Gorfforol. Byddwn ni'n darparu lluniau o'r cyfleusterau yma yn rhai o'n hysgolion newydd maes o law. |
| Priffyrdd / Trafnidiaeth | | |
| 39 | Sut bydd traffig a pharcio yn cael eu rheoli? | Byddwn ni'n mynd i'r afael â hyn wrth ddatblygu'r dyluniad. Lle bo modd, bydd darpariaeth codi a gollwng i rieni/gwarcheidwaid. |
| 40 | Darllenais i y bydd man codi a gollwng 'gyrru trwodd'. Sut bydd hyn yn cael ei fonitro? A fydd disgwyl i staff yr ysgol fonitro'r sefyllfa? | Fel yr uchod, lle mae darpariaeth codi a gollwng i rieni/gwarcheidwaid wedi'i chynnwys ar safle ysgol, bydd disgwyl i staff yr ysgol fonitro'r ardal. |
| 41 | A fydd mynedfa o ochr Glyn-coch ac ymyl y ffordd fawr? | Byddwn ni'n mynd i'r afael â threfniadau mynediad wrth ddatblygu'r dyluniad. |
| 42 | Beth fydd y ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n cerdded o ben Glyn-coch | Caiff cludiant ei ddarparu dim ond pan fo plant yn byw mwy na 1.5 |

| | | |
|------------------------------|---|---|
| | (cwestiwn gan ddisgybl)? / a fydd bysiau ysgol ar gyfer y dalgylch mwy? | milltir o'r ysgol yn eu dalgylch (neu'r ysgol addas agosaf). |
| Defnydd gan y gymuned | | |
| 43 | A fydd Cychwyn Cadarn a Dechrau'n Deg yn cael eu cynnwys yn rhan o'r safle newydd? Os felly, pwy fydd yn gyfrifol am gynnal a gweithredu hyn o ddydd i ddydd? | Bydd Dechrau'n Deg yn aros yn ei leoliad presennol. Serch hynny, mae cysylltiadau gyda'r ysgol yn allweddol ac mae modd eu meithrin ymhellach gyda'r Pennaeth a rheolwyr Dechrau'n Deg mewn perthynas â'r ysgol newydd. |
| 44 | Os bydd cyfleusterau'r ysgol ar gael i'r cyhoedd pwy sy'n gyfrifol am hyn? | Bydd y Corff Llywodraethu yn penderfynu ar ddefnydd o'r cyfleusterau gan y gymuned a nhw fydd yn gyfrifol am reoli'r trefniadau yma. Bydd angen i'r Corff Llywodraethu ac unrhyw sefydliadau cymunedol sy'n dymuno defnyddio cyfleusterau ar safle'r ysgol gytuno ar asesiadau risg a threfniadau archebu lle. Bydd hyn yn creu cyfle i godi tâl trwy ffioedd llogi cyfleusterau. |
| 45 | A gaiff unrhyw fath o gyfleuster gofal plant cofleidiol ei ddarparu? | Y Corff Llywodraethu fydd yn penderfynu ar hyn ond fydd cyfleuster gofal plant ddim yn cael ei gynnwys yn rhan o ddyluniad yr ysgol. |
| Arall | | |
| 46 | Os ydych chi'n talu am adeiladu ysgol newydd - ar safle mawr fel y mae - beth am adeiladu pwll nofio a chyfleusterau hamdden ar yr un pryd? Byddai o fudd i'r gymuned a byddai'n arbed plant rhag gorfod treulio cymaint o amser ar fysiau yn mynd i wersi nofio! | Mae'r cyllid yn dod gan Lywodraeth Cymru drwy ei Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21 ^{ain} Ganrif sydd ar gyfer darpariaeth addysg newydd yn unig. |
| 47 | Mae'r ysgol wir wedi gwella yn ddiweddar yn ôl adroddiad diweddar Estyn. Rhaid i ni beidio â cholli golwg ar hyn. | Mae GD (Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant) wedi bod yn rhan o'r cyfarfodydd cynnydd. Dywedodd ei bod yn falch iawn o weld adroddiad diweddar Estyn sy'n dystiolaeth o waith caled y staff. Bydd yr ysgol newydd yn galluogi'r staff i fynd o nerth i nerth, |

| | | |
|-----------|---|---|
| | | gan greu amgylchedd i ffynnu ac adeiladu ar y cynnydd hyd yma. |
| 48 | Pryd bydd staff yn cael gwybod am brosesau fel yr angen i wneud cais am swyddi yn yr ysgol newydd? | Bydd y gwaith yn dechrau ar ddatblygu'r strwythur staffio newydd 18 mis cyn agor yr ysgol newydd. |
| 49 | I ba raddau y bydd Undebau Llafur yn cymryd rhan yn y broses rheoli newid? | Mae gyda ni brosesau wedi'u hen sefydlu ar waith y mae'r Undebau'n gwybod amdany'n nhw, e.e. penodi Pennaeth newydd a llunio strwythur staffio. Yn ystod y broses yma, bydd modd i ni gynghori'r Corff Llywodraethu ond y nhw fydd yn dod i benderfyniadau. Dywedodd GD fod yr Awdurdod Lleol yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd ag Undebau Llafur ac yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda nhw am ein Rhaglen Ysgolion yr 21 Ganrif, fel eu bod yn gwbl effro i ddatblygiadau. |
| 50 | A fydd deunyddiau adeiladu o ansawdd da yn cael eu defnyddio, ac nid y math a gafodd eu defnyddio yn Nhŵr Grenfell? | Mae'r diwydiant adeiladu byd-eang wedi dysgu gwersi. Fydd cladin llosgadwy ddim yn cael ei ddefnyddio. Byddwn ni'n gweithio ar y cyd â'r gwasanaeth tân yn rhan o'r broses 'Diogelu drwy Ddylunio' i gael defnyddio eu harbenigedd. |

4. Sylwadau Cloi

Dywedodd SH wrth y cyfarfod y bydd staff ac aelodau o'r Cyrff Llywodraethu yn cael cynnig y cyfle dros yr wythnosau nesaf i fyfrio ar ymatebion y swyddogion a chyflwyno cwestiynau ychwanegol lle bo angen.

Anogodd AR staff, aelodau o'r Cyrff Llywodraethu, rhieni/gwarcheidwaid a'r gymuned leol i gymryd rhan drwy'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig at CynllunioYsgolion@@rctcbc.gov.uk

Roedd GD wedi diolch i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben.

Ymgynghoriad i uno Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg

Cyfarfod gyda Chyngor Ysgol Gynradd Cefn

Dydd Mercher 19 Ionawr 2022 am 11am

Dros Microsoft Teams

Yn bresennol:

| | | |
|--------------------|----|---|
| Gaynor Davies | GD | Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant |
| Andrea Richards | AR | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif a Materion Trawsnewid |
| Nicola Goodman | NG | Swyddog Arweiniol ar gyfer Cynllunio Strategol a'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) - Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif |
| Catherine Williams | CW | Swyddog Rhaglen Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif |
| Richard Bowen | RB | Swyddog Rhaglen Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif |
| Sarah Nicholls | SN | Swyddog Graddedig – Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif |
| Mrs E Byers | EB | Pennaeth yr Ysgol - Ysgol Gynradd Cefn |
| Mrs C Reynolds | CR | Ysgol Gynradd Cefn – Athro Dosbarth |
| Disgybl 1 | | Ysgol Gynradd Cefn – Aelod o Gyngor yr Ysgol |
| Disgybl 2 | | Ysgol Gynradd Cefn – Aelod o Gyngor yr Ysgol |
| Disgybl 3 | | Ysgol Gynradd Cefn – Aelod o Gyngor yr Ysgol |

5. Croeso a Chyflwyniadau

Estynnodd GD groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cafodd pawb eu cyflwyno i'w gilydd.

6. Trosolwg o'r Ymgynghoriad

Esboniodd AR y cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori. Cafodd ei gadarnhau hefyd bod y disgyblion i gyd wedi derbyn copi caled o fersiwn y ddogfen ymgynghori i blant.

7. Fideo'r Ymgynghoriad

Rhannodd RB fideo a oedd yn egluro'r cynnig a'r broses ymgynghori ymhellach. Cytunodd NG i anfon copi o'r fideo, ynghyd â rhai lluniau o ysgolion cynradd newydd sydd wedi'u cwblhau'n ddiweddar, at Mrs Hagggett (Pennaeth Gweithredol), gan ofyn iddi eu rhannu â'r holl ddisgyblion.

8. Cwestiynau gan ddisgyblion

Roedd pob grŵp blwyddyn yn Ysgol Gynradd Cefn wedi paratoi cwestiynau am y cynnig cyn y cyfarfod. Gofynnodd y tri aelod o'r Cyngor Ysgol y cwestiynau yma ar ran y disgyblion. Mae'r cwestiynau, a'r ymatebion gan Swyddogion RhCT, wedi'u crynhoi yn y tabl isod.

| | Cwestiwn | Ymateb |
|----|--|---|
| 1. | A fydd cegin newydd i'r disgyblion ei defnyddio yn rhan o ddsbarth/clwb coginio? | Fydd dim cegin i'r plant ei defnyddio yn yr ysgol newydd. Serch hynny, bydd y cyfleusterau a'r cwricwlwm newydd yn golygu y bydd modd i ddisgyblion gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau arlwyo. Byddai modd i rywun o Garfan Arlwyo'r Cyngor ddod i'r ysgol newydd a chynnal dosbarthiadau bwyta'n iach gyda'r disgyblion. |
| 2. | A fydd logo newydd i'r ysgol? | Bydd logo newydd yn cael ei ddylunio ar y cyd â'r disgyblion. Mae'n bosib y gallen nhw gynnal cystadleuaeth i ddylunio'r logo newydd. Unwaith y bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r logo, bydd Carfan Dylunio'r Cyngor yn dylunio logo newydd yr ysgol yn broffesiynol, yn seiliedig ar fewnbwn gan y disgyblion a'r athrawon. |
| 3. | Pa adnoddau fydd ar yr iard? | Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle gwastad, a fydd yn golygu bod modd cael Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) ar gyfer pêl-droed, pêl-rwyd, tennis, ac ati. Bydd yna hefyd gae glaswellt, ardal goediog y bydd modd ei defnyddio at ddibenion 'ysgolion coedwig', ac o bosibl gwelyau plannu planhigion/cyfleusterau garddio i'r disgyblion. Bydd y manau chwarae yn lliwgar a chyffrous ac yn annog dysgu yn yr awyr agored. Gan mai ysgol gymunedol fydd hon, gall rhai o'r cyfleusterau yma, er enghraifft y MUGA, fod ar gael ar ôl oriau ysgol i bobl sydd ddim yn mynychu'r ysgol (gyda chaniatâd yr ysgol). |
| 4. | A fydd llyfrgell yn yr ysgol newydd? | Bydd yr ysgol newydd yn cynnwys 'Calon yr Ysgol'. Dyma ardal yng nghanol yr ysgol a fydd yn cynnwys dodrefn, e.e. seddi, byrddau, offer TGCh a silffoedd llyfrau. Gan fod 'Calon yr Ysgol' yn ardal hyblyg, mae modd ei defnyddio ar gyfer llawer o wahanol bethau, gan gynnwys manau tawel ar gyfer darllen. Bydd 'Calon yr Ysgol' yn cael ei dylunio i fod yn ardal fodern a lliwgar i bob |

| | | |
|----|---|--|
| | | plentyn ym mhob grŵp blwyddyn ei mwynhau. |
| 5. | A fydd hebryngwr yn yr ysgol newydd? | Bydd Aseiad o Effaith mewn perthynas â Thraffig yn cael ei gynnal ar gyfer yr ysgol newydd yng Nglyn-coch. Bydd yr Aseiad Effaith yma'n egluro beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod disgyblion yn ddiogel wrth deithio i'r ysgol. Mae'n bosibl y bydd angen hebryngwr, ond bydd yn dibynnu ar yr hyn y mae'r Garfan Diogelwch y Ffyrdd yn ei awgrymu o ran y mesurau mwyaf priodol. |
| 6. | A fydd gyda'r ysgol newydd neuadd fwyta? | Bydd gyda'r ysgol newydd neuadd fawr y bydd modd ei defnyddio ar gyfer gwasanaethau, gwersi Addysg Gorfforol a bydd digon o fyrddau a chadeiriau ar gael i fwyta yno. Bydd y neuadd fawr, agored wrth ymyl y gegin fel ei bod yn hawdd i bob disgybl gael eu prydau bwyd yno. |
| 7. | A fydd amserlenni'r disgyblion yn newid ar ôl symud i'r ysgol newydd? | Os yw'r athrawon a'r disgyblion yn hapus gyda'r amserlenni presennol, yna caiff hyn ei ystyried. Serch hynny, bydd yr ysgol newydd yn cynnwys disgyblion o Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg, ac felly bydd angen i'r amserlenni adlewyrchu hynny a bydd raid i ddisgyblion y ddwy ysgol fod yn hapus gyda nhw. Bydd eich athrawon yn penderfynu ar hyn. |
| 8. | Yn yr ysgol newydd, a fydd lle i blant ag anawsterau? | Bydd croeso i bob plentyn yn yr ysgol newydd, a bydd yn cael ei dylunio fel ei bod yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei dylunio i ddiwallu anghenion ychwanegol rhai disgyblion, a bydd dau Ddosbarth Cynnal Dysgu yno. |
| 9. | A fydd ystafell gelf yn yr ysgol newydd? | Fydd dim ystafell gelf bwrpasol yn yr adeilad newydd. Bydd gyda phob ystafell ddosbarth y cyfleusterau, yr adnoddau a'r dechnoleg angenrheidiol ar gyfer gwahanol fathau o weithgareddau a gwersi, gan gynnwys celf. Bydd digon o le storio hefyd yn y dosbarthiadau i gadw'r adnoddau a'r gwaith celf yn ddiogel. Bydd modd defnyddio 'Calon yr Ysgol' hefyd ar gyfer pethau fel gwersi celf. |

| | | |
|-----|---|---|
| 10. | A fydd gyda'r disgyblion athrawon newydd, neu a fydd yr un athrawon yn yr ysgol newydd? | Bydd dod â'r ddwy ysgol ynghyd yn golygu y bydd angen rhai newidiadau bach, ond dim byd rhy sylweddol. Bydd angen o leiaf yr un nifer o athrawon yn yr adeilad newydd, ac mae hyd yn oed yn bosibl y bydd angen rhai swyddi newydd. Bydd y Corff Llywodraethu dros dro yn dod i benderfyniadau ar staffio maes o law. |
| 11. | A fydd unrhyw ystafelloedd synhwyrdd yn yr ysgol newydd? | Bydd y ddau Ddosbarth Cynnal Dysgu sydd yn Ysgol Gynradd Cefn ar hyn o bryd yn symud i'r ysgol newydd. Bydd athrawon yn gallu rhoi mewnbwn ynghylch yr hyn fydd ei angen ar y plant, fel bod yr ysgol yn gynhwysol i bob disgybl. |
| 12. | A fydd gyda'r ysgol newydd adnoddau newydd? | Bydd gyda'r ysgol ddodrefn ac offer TGCh newydd. Bydd modd symud deunyddiau'r cwricwlwm (ysgrifbinnau/llyfrau/teganau, ac ati) i'r adeilad newydd a'u defnyddio yn yr ysgol newydd, os yn bosibl. |
| 13. | Beth fydd yn digwydd i'r adnoddau sydd ddim yn cael eu symud i'r adeilad newydd? | Mae'n bwysig bod unrhyw adnoddau sy'n dal mewn cyflwr da yn cael eu hailddefnyddio yn rhywle arall. Does dim byd yn mynd i wastraff os oes modd ei ddefnyddio. |
| 14. | Ble bydd y plant yn cadw eu bagiau a'u cotiau? | Lle bynnag y bo modd, bydd ystafelloedd dosbarth yn cael eu trefnu mewn parau, gyda thoiledau ac ystafelloedd cotiau wedi'u rhannu wedi'u lleoli yn uniongyrchol oddi ar y dosbarthiadau, fel bod modd cadw'r holl gotiau a bagiau'n ddiogel a thaclus. |
| 15. | A fydd unrhyw glybiau ar ôl ysgol yn yr ysgol newydd? | Bydd gyda'r ysgol newydd Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) a manau eraill y mae modd eu defnyddio ar ôl ysgol a chan y gymuned gyda'r nos. Eich athrawon fydd yn penderfynu ar unrhyw glybiau ar ôl ysgol a fydd yn cael eu cynnal. |
| 16. | Oes modd i bobl ddefnyddio'r cyfleusterau hyd yn oed dydyn nhw ddim yn mynychu'r ysgol? | Oes, mae'n bosibl y bydd modd i'r gymuned ddefnyddio rhai o gyfleusterau'r ysgol, gyda'i chaniatâd. Mae'n bwysig bod unrhyw ddefnydd gan y gymuned yn cael ei reoli'n ddiogel. |

9. Daeth y cyfarfod i ben.

Roedd GD wedi diolch i'r disgyblion a'r staff am eu cyfraniadau gwerthfawr yn y cyfarfod heddiw. Gofynnodd i'r holl ddisgyblion a rhieni/gwarcheidwaid gael eu hannog i ymateb i'r ymgynghoriad gyda'u hadborth, boed hynny'n dda neu'n ddrwg, erbyn y dyddiad cau, sef 21 Chwefror 2022.

Ymgynghoriad i uno Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg

Cyfarfod gyda Chyngor Ysgol Craig-yr-Hesg

Dydd Mercher 19 Ionawr 2022 am 10am

Dros Microsoft Teams

Yn bresennol:

| | | |
|--------------------|----|---|
| Gaynor Davies | GD | Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant |
| Andrea Richards | AR | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif a Materion Trawsnewid |
| Nicola Goodman | NG | Swyddog Arweiniol ar gyfer Cynllunio Strategol a'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) - Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif |
| Catherine Williams | CW | Swyddog Rhaglen Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif |
| Richard Bowen | RB | Swyddog Rhaglen Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif |
| Sarah Nicholls | SN | Swyddog Graddedig – Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif |
| Miss C Thomas | CT | Pennaeth yr Ysgol - Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg |
| Miss C Andrews | CA | Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg – Athrawes Ddosbarth |
| Disgybl 1 | | Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg - Prif fachgen |
| Disgybl 2 | | Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg - Prif ferch |
| Disgybl 3 | | Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg – Aelod o Gyngor yr Ysgol |

10. Croeso a Chyflwyniadau

Estynnodd GD groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cafodd pawb eu cyflwyno i'w gilydd.

11. Trosolwg o'r Ymgynghoriad

Rhoddodd AR drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori. Cafodd ei gadarnhau hefyd bod y disgyblion i gyd wedi derbyn copi caled o fersiwn y ddogfen ymgynghori i blant.

12. Fideo'r Ymgynghoriad

Rhannodd RB fideo a oedd yn egluro'r cynnig a'r broses ymgynghori ymhellach. Cytunodd NG i anfon copi o'r fideo, ynghyd â rhai lluniau o ysgolion cynradd newydd sydd wedi'u cwblhau'n ddiweddar, at Mrs Haggert (Pennaeth Gweithredol), gan ofyn iddi eu rhannu â'r holl ddisgyblion.

13. Cwestiynau gan ddisgyblion

Roedd pob dosbarth yn Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg wedi paratoi cwestiynau am y cynnig cyn y cyfarfod. Gofynnodd y tri aelod o'r Cyngor Ysgol y cwestiynau yma ar ran y disgyblion. Mae'r cwestiynau, a'r ymatebion gan Swyddogion RhCT, wedi'u crynhoi yn y tabl isod.

| | Cwestiwn | Ymateb |
|----|---|---|
| 1. | A fydd gyda'r dosbarth meithrin deganau newydd? | Bydd gyda ni gyllideb benodol i brynu dodrefn ac offer newydd ar gyfer yr ysgol newydd. Bydd yr holl ddodrefn ac offer TGCh yn newydd, ac efallai y bydd rhai teganau ac offer newydd. Efallai y bydd yr ysgol yn penderfynu defnyddio rhywfaint o'i harian i brynu pethau newydd hefyd. |
| 2. | Pa mor fawr fydd yr ysgol? | Bydd yr ysgol yn ddigon mawr ar gyfer hyd at 360 o ddisgyblion, ynghyd â dosbarth meithrin. Bydd maint y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn 70m ² , a bydd y dosbarthiadau ar gyfer y plant hŷn sydd â llai o deganau ac offer ynddyn nhw yn 60m ² . Bydd pob ystafell ddosbarth yn fawr, llachar a lliwgar i chi ddysgu ynddyn nhw. |
| 3. | A fydd dau lawr? | <p>Dydyn ni ddim wedi penderfynu ar hyn eto. Bydd angen i ni ddefnyddio peiriannau i archwilio sut stad sydd ar y tir ar y safle er mwyn i ni wybod faint o'r tir y mae modd adeiladu arno.</p> <p>Os gallwn ni adeiladu ysgol unllawr, bydd gyda phob ystafell ddosbarth fynediad uniongyrchol i'r awyr agored. Os bydd angen i ni adeiladu ysgol gyda dau lawr, bydd ystafelloedd dosbarth y plant iau ar y llawr gwaelod, a bydd ystafelloedd dosbarth y plant hŷn ar y llawr uchaf.</p> <p>Bydd yr ysgol newydd yn hygyrch ac yn gynhwysol. Byddwn ni'n sicrhau bod pawb yn gallu cyrraedd yr holl ardaloedd a chyfleusterau yn yr ysgol a'u defnyddio'n hawdd.</p> |
| 4. | A fydd gyda ni athrawon newydd? | Mae llawer o athrawon da eisoes yn y ddwy ysgol a bydd angen o leiaf yr un faint o athrawon arnon ni yn yr ysgol newydd. Efallai y bydd rhai newidiadau bach, ond dydyn ni ddim yn meddwl y bydd llawer o newidiadau mawr. |
| 5. | A fydd gyda ni barc yn yr iard? | Fydd dim parc, ond bydd llawer o gyfleoedd cyffrous i chwarae a dysgu yn yr ardal awyr agored. Bydd y rhain yn cynnwys Ardal Gemau Aml-dddefnydd (MUGA) liwgar i chwarae llawer o wahanol chwaraeon arni, cae glaswellt ac ardaloedd 'ysgolion coedwig'. |

| | | |
|-----|---|--|
| 6. | Faint o ystafelloedd dosbarth fydd gyda ni? | Bydd gyda'r ysgol 12 ystafell ddosbarth, dosbarth meithrin a dau Ddosbarth Cynnal Dysgu. Fyddwn ni ddim angen yr holl ystafelloedd dosbarth pan fydd yr ysgol yn agor, ond bydd lle i'r ysgol dyfu os bydd mwy o ddisgyblion am ddod i'r ysgol newydd. |
| 7. | Pa liw fydd y wisg? | Y Corff Llywodraethu fydd yn penderfynu ar hyn, a byddan nhw'n ei drafod gyda'r Pennaeth, y staff a'r disgyblion. Bydd angen logo newydd ar yr ysgol newydd hefyd. Efallai y bydd modd i'r ysgol gynnal cystadleuaeth i ddisgyblion ddylunio'r logo yma. Yna bydd modd i Garfan Dylunio'r Cyngor greu logo proffesiynol o'ch syniadau. |
| 8. | A wnewch chi sicrhau bod ardaloedd tawel er mwyn i ni ddarllen, ac efallai llyfrgell hyd yn oed? | Er fydd dim llyfrgell bwrpasol, bydd man agored mawr yng nghanol yr ysgol o'r enw 'Calon yr Ysgol'. Bydd modd ei defnyddio ar gyfer llawer o wahanol bethau. Bydd dodrefn, a allai gynnwys silffoedd llyfrau, yn cael eu defnyddio mewn ffordd glyfar i greu llawer o wahanol ardaloedd, gan gynnwys ardaloedd tawel a fydd yn ddelfrydol ar gyfer darllen. |
| 9. | Sut bydd y pontio o Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg i'r ysgol newydd yn gweithio, ac a fydd yn tarfu arnon ni? | Bydd y cyfan yn cael ei drefnu'n ofalus iawn i sicrhau bod cyn lleied o darfu â phosibl yn digwydd. Byddwn ni'n defnyddio cwmni symud i symud popeth i'r ysgol newydd. |
| 10. | Bydd disgyblion hŷn wedi symud i'r Ysgol Uwchradd erbyn i'r ysgol newydd agor. A fyddan nhw'n gallu defnyddio'r cyfleusterau ar ôl ysgol? | Elfen bwysig o'n hysgolion newydd yw eu bod yn ysgolion i'n cymunedau. Byddan nhw'n cynnwys ystafell i'r gymuned a chyfleusterau awyr agored y gall plant hŷn a'r gymuned ehangach eu defnyddio gyda'r nos. Er enghraifft, mewn ysgolion cymunedol eraill, mae'r cyfleusterau cymunedol yma'n cael eu defnyddio gan y Brownis, y Sgowtiaid, corau, timau chwaraeon ac ar gyfer gwersi Cymraeg gyda'r nos. Bydd yr ysgol yn cytuno ar y defnydd gan y gymuned, ac yn rheoli hyn yn ddiogel. |

14. Daeth y cyfarfod i ben.

Roedd GD wedi diolch i'r disgyblion a'r staff am eu cyfraniadau gwerthfawr yn y cyfarfod heddiw. Gofynnodd i'r holl ddisgyblion a rhieni/gwarcheidwaid gael eu hannog i ymateb i'r ymgynghoriad gyda'u hadborth, boed hynny'n dda neu'n ddrwg, erbyn y dyddiad cau, sef 21 Chwefror 2022.

Atodiad 3

Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i gyfuno Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg i greu ysgol gynradd gymunedol newydd ar safle newydd

Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Crynodeb / Casgliad

Mae'n debygol y bydd y cynigion yn cynnal neu'n gwella safon darpariaeth addysg yn yr ardal drwy gynig cyfleusterau gwell ar gyfer addysgu a dysgu, ac yn helpu arweinyddiaeth y ffederasiwn cyfredol i weithredu'n fwy effeithiol ac effeithlon.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr wedi rhoi sail resymegol glir ar gyfer cyfuno'r ysgolion cynradd ffederal ar sail ansawdd gwael adeiladau'r ysgolion presennol a'r cyfleoedd y byddai ysgol gyfunol newydd yn eu cynnig i wella addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth.

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu disgrifiad manwl o'r cynnig, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer gweithdrefnau statudol a rhoi'r cynnig ar waith. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon Clir yn y cynnig yn union lle caiff yr ysgol newydd ei hadeiladu. Ar dudalen 1 y ddogfen ymgynghori, dywed: 'Bydd adeilad newydd yr ysgol yn cael ei adeiladu ar safle presennol Ysgol Gynradd Craig yr Hesg a'r tir gerllaw (hen safle Uned Cyfeirio Disgyblion T9 Gwyn).' Fodd bynnag, ar dudalen 13, dywed: 'Oherwydd cyfyngiadau safleoedd presennol yr ysgolion, nid yw'r naill safle na'r llall yn addas ar gyfer yr ysgol newydd yn ei fformat presennol. Felly, mae angen ysgol newydd ar gyfer Glyncoch y mae'n rhaid ei hadeiladu ar safle newydd.' Ar dudalen 13, mae'r ddogfen yn ailddatgan: 'Yn dilyn yr asesiad hwn, nodwyd mai safle presennol Ysgol Gynradd Craig yr Hesg a'r tir gerllaw iddo (hen safle Uned Cyfeirio Disgyblion T9 Gwyn) oedd yr unig leoliad addas ar gyfer yr ysgol newydd'. Mae'r diffyg eglurder yn ymwneud ag i ba raddau y bydd safle cyfredol Ysgol Gynradd Craig yr Hesg yn rhan o leoliad yr ysgol newydd, a pha effaith bydd y gwaith adeiladu'n ei chael ar yr ysgol gyfredol yn ystod y cyfnod adeiladu.

Mae'r cynnig yn amlinellu'r manteision a'r anfanteision disgwylidig mewn ffordd glir a theg, o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Fodd bynnag, yr unig risg a nodir yw rhieni'n dewis anfon eu plant i ysgol amgen. Ymddengys bod risgiau eraill nad ydynt yn cael eu hystyried yn adran rheoli risg y cynigion. Er enghraiffti, mae'r cynnydd mewn traffig ar safle'r ysgol newydd yn un risg debyg, a dywed y cynigiwr fod 'ardal gollwng' i helpu lleihau'r perygl hon 'dan ystyriaeth' yn unig, a bod angen 'arolygon pellach ac asesiadau trafniadaeth a thraffig.' Os na chaiff yr ardal gollwng ei chynnwys yn y cynlluniau terfynol, mae'n debygol y bydd effaith negyddol ar draffig o gwmpas safle'r ysgol newydd ar adegau penodol o'r dydd. Gallai'r effaith bosibl ar Ysgol Gynradd Craig yr Hesg yn ystod y cyfnod adeiladu fod yn ffactor ychwanegol, nad yw'n cael ei thrafod yn y cynnig.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried cynigion amgen addas ac wedi esbonio'n glir pam nad yw'r rhain yn bosibl neu pam maent yn llai effeithiol na'r cynnig dewisol. Ystyrir mai'r lleoliad ddewiswyd ar gyfer yr ysgol newydd ar dir yn gyfagos at Ysgol Gynradd Craig yr Hesg yw'r 'unig leoliad addas' yn yr ardal. Mae'r ddwy ysgol ffederal 0.6 milltir yn unig oddi wrth ei gilydd felly, drwy leoli'r ysgol ar safle nesaf at Ysgol Gynradd Cefn yr Hesg, rhagwelir na fydd llawer o effaith ar drefniadau teithio i ddysgwyr. Bydd yr ysgol newydd yn cydymffurflo'n llawn Deddf Cydraddoldeb 201(), tra nad yw'r ddwy ysgol gyfredol yn bodloni'r gofynion hygyrchedd, yn enwedig Ysgol Gynradd Cefn.

Nid yw'r wybodaeth a roddir yn y cynigion am leoedd gwag yn ddigon clir. Mae'r ffigurau rhagamcanol ar gyfer nifer y disgyblion yn 2025-2026 yn awgrymu y bydd nifer sylweddol o leoedd gwag yn Ysgol Gynradd Cefn (35%), ac y bydd Ysgol Craig yr Hesg ychydig yn brin o leoedd (-2%). Rhoddir y rhagamcaniad hwn fel un rheswm pam y byddai un ysgol newydd yn well na'r sefyllfa bresennol. Fodd bynnag, bwriedir i'r ysgol newydd fod nifer dderbyn o 360 o ddisgyblion (heb gynnwys lleoedd meithrin), er y byddai cyfanswm nifer y disgyblion, yn Ol y rhagamcanion a roddir, yn 245 yn 2025-2026. Byddai hyn yn golygu bod gan yr ysgol fwy na 30% o leoedd gwag yn syth, er bod unrhyw beth dros 30% yn cael ei ystyried yn rheswm posibl i'r awdurdod lleol ystyried ad-drefnu. Nid yWr rhesymau am gynnwys y nifer hon o leoedd gwag yn yr ysgol newydd yn cael eu hegluro yn y cynigion.

Mae'r ddwy ysgol ffederal yn cynnig addysg cyfrwng Saesneg ac yn addysgu Cymraeg fel rhan o'u cwricwlwm. Bydd yr ysgol newydd yn gwneud yr un Peth, felly ymddengys y byddai effaith gyfyngedig ar Gynllun Strategaeth Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol. Mae ymrwymiad y bydd yr ysgol gyfunol yn ymgymryd â Siarter Iaith 'Cymraeg Campus', sydd â'r nod o ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.

Mae'n glir yn y cynigion na fydd arbediad ariannol mawr, gan fod y ddwy ysgol wedi'u ffedereiddio er 2012 ac eisoes wedi gwneud arbedion o ganlyniad i hynny. Caiff ei amcangyfrif y gellid arbed tua E78,000 y flw.yddyn ar Sail y cyllidebau ysgol cyfredol. Fodd bynnag, byddai manteision ariannol eraill hefyd, fel dileu'r ôl-groniad sylweddol o waith cynnal a chadw (yr amcangyfrifir ei fod yn fwy na E750,000), effeithlonrwydd ynni gwell yr ysgol newydd, a'r posibilrwydd o werthu tir yn y dyfodol.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth dda i'r effaith debygol y cynigion ar ansawdd safonau mewn addysg. Ym mis Tachwedd 2021, tynnwyd yr ysgolion ffederal o'r categori Gwelliant Sylweddol ar ôl ymweliad monitro gan Estyn. Roedd hyn yn adlewyrchu gwelliannau o ran sefydlogrwydd ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth, ac ansawdd yr addysgu ar draws y ffederasiwn. Mae nifer o enghreifftiau yn y cynnig ynghylch Sut bydd y cyfleusterau'n cynnig cyfleoedd nevydd neu estynedig ar gyfer dysgu a lles, fel darpariaeth TGCh well, ardaloedd chwarae creadigol yn yr awyr agored, ardal ysgol y goedwig, ardal cynefin ac ardal gemau amldeffnydd. Mae'r cyfleusterau newydd yn debygol o helpu sicrhau y caiff y cwricwlwm llawn ei gyflwyno yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2, gan gynnwys y Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth addas i effaith y cynnig ar grwpiau bregus. Mae hyn yn cynnwys nodi y caiff y Dosbarthiadau Cymorth Dysgu sydd wedi'u lleoli yn Ysgol Gynradd Cefn ar hyn o bryd eu hadleoli i adeilad pwrpasol yn yr ysgol newydd, sy'n debygol o helpu gwella profiadau a chyfleoedd dysgu'r disgyblion hynny.

Mae'r cynnig ar gyfer ysgol gymunedol newydd a fydd yn cynnig y gallu i grwpiau cymunedol fanteisio ar rannau o'r cyfleuster newydd drwy dydd, yn ogystal ag ar ôl ysgol. Ar yr un pryd, bydd y safle wedi'i ddiogelu'n well na safleoedd yr ysgolion presennol rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy ffensys 'diogel yn ôl eu dyluniad'. Mae'r gwelliannau hyn yn debygol o gynyddu rôl yr ysgol mewn cydlyniad cymunedol.

Os caiff yr ysgol ei lleoli'n agos at Ysgol Craig yr Hesg, gallai amharu'n sylweddol ar weithrediad yr ysgol. Nid yw'r cynnig yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r aflonyddu posibl ar Ysgol Gynradd Craig yr Hesg yn ystod y cyfnod adeiladu, na sut caiff hyn ei leihau.